

CBAC TGAU

Sbaeneg

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Manyleb

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027

Fersiwn 1b - Mehefin 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan
Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- [Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru](#) sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a Gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- [Amodau Cydnabod Safonol](#) sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU [Sbaeneg](#) sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer cymwysterau TGAU Sbaeneg o fis Medi 2025 a thu hwnt.

CRYNODEB O ADDASIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
1b	Diweddarwyd y rhestr eirfa er mwyn cywirdeb a chysondeb.	drwyddi draw

CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD.....	6
1.1	Nodau.....	6
1.2	Cwricwlwm i Gymru.....	6
1.3	Dysgu blaenorol a dilyniant.....	8
1.4	Oriau dysgu dan arweiniad.....	8
1.5	Defnyddio iaith.....	8
1.6	Cydraddoldeb a mynediad teg.....	9
2	CYNNWYS Y PWNC.....	10
	Uned 1.....	11
	Uned 2.....	14
	Uned 3.....	16
	Uned 4.....	18
	Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu.....	20
3	ASESU.....	21
3.1	Amcanion asesu a phwysoli.....	21
3.2	Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad.....	22
4	CAMYMDDWYN.....	23
5	GWYBODAETH DECHNEGOL.....	24
5.1	Cofrestru.....	24
5.2	Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl.....	24
	Atodiad A.....	25
	Gramadeg a chyfatebiaethau sain-sillafu Sbaeneg.....	25
	Cyfatebiaeth sain-sillafu Sbaeneg.....	29
	Atodiad B: Rhestr eirfa Sbaeneg.....	31
	Iaith Bob Dydd.....	31
	Geirfa graidd.....	49
	Atodiad C: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru.....	94

TGAU SBAENEG

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Llafaredd**Asesiad di-arholiad****Prawf siarad: 7-10 munud****Amser paratoi: 10 munud****30% o'r cymhwyster****60 marc****Tair tasg:**

- Darllen yn uchel a chwarae rôl
- Cyflwyniad a thrafodaeth
- Sgwrs

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r asesiad.**Uned 2: Darllen ac Ysgrifennu****Asesiad di-arholiad: 1 awr****15% o'r cymhwyster****45 marc**

- ymateb ysgrifenedig yn Sbaeneg

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r asesiad.**Uned 3: Gwrando****Arholiad ysgrifenedig: 45 munud****20% o'r cymhwyster****45 marc**

- tasgau gwrando a deall gydag ymatebion penodol ac ysgrifenedig

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r asesiad.**Uned 4: Darllen ac Ysgrifennu****Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud****35% o'r cymhwyster****70 marc**

- tasgau darllen a deall
- cyfieithu o'r Sbaeneg i'r Gymraeg/Saesneg
- tasg ysgrifennu mewn ymateb i ysgogiadau syml a chyfarwydd

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r asesiad.

Cymhwyster llinol fydd hwn. Ni fydd haenau i'r cymhwyster hwn.

Bydd y dyfarniad cyntaf yn ystod cyfres yr haf 2027.

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw trefn gyflwyno'r unedau yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4968/7

TGAU SBAENEG

1 CYFLWYNIAD

1.1 Nodau

Rhaid i'r cymhwyster TGAU Sbaeneg gefnogi dysgwyr i:

- ddeall yr iaith drwy ddatblygu sgiliau gwranddo, darllen a gwylio
- cyfathrebu'n glir, yn gywir ac yn greadigol drwy ddatblygu sgiliau siarad ac ysgrifennu
- dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a strwythurau Sbaeneg
- mynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at wahanol gynulleidfaoedd a dibenion
- cyfrannu at sgysiau a thrafodaethau
- dangos eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant a chymdeithasau'r gwledydd a'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad a gwneud cysylltiadau â'u hieithoedd a'u diwylliant eu hunain.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Sbaeneg hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r [egwyddorion cynnydd](#), yn ogystal â'r [datganiadau o'r hyn sy'n bwysig](#) a'r [sgiliau a chysyniadau penodol i'r pwnc](#) hynny a amlinellir yn rhan '[Cynllunio eich Cwricwlwm](#)'. Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad C, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 19; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster TGAU Sbaeneg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig¹, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
 - sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau mewn un iaith yn cael eu trosglwyddo a'u meithrin mewn ieithoedd eraill
 - datblygu eu dealltwriaeth, eu hempoethi a'u gallu i ymateb a chyfryngu'n effeithiol
 - defnyddio ieithoedd er mwyn bod yn effeithiol wrth ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth
 - cynnig profiadau llenyddol, sy'n gallu ennyn eu diddordeb fel gwrandawyr, gwylywyr, darllenwyr, adroddwyr a llenorion.

¹ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – Hwb \(llyw.cymru\)](#)
© WJEC CBAC Ltd 2024.

- cefnogi egwyddorion cynnydd² drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - adeiladu ar eu sgiliau ieithyddol
 - tyfu mewn ffordd gyfannol o ran sut maen nhw'n deall ac yn gallu gwneud defnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
 - datblygu eu repertoire ieithyddol drwy ddod i ddeall sut mae eu hieithoedd eu hunain yn gweithio
 - addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol
 - meithrin sgiliau iaith derbyniadol, deongliadol a mynegiannol
 - trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddyn nhw'n barod i gyd-destunau newydd gan gynnwys yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol ar iaith.
- cefnogi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu ieithoedd³ drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemig
 - parhau i wneud cynnydd ym mhob un o'u hieithoedd o'u mannau cychwyn gwahanol.

Bydd y cymhwyster TGAU Sbaeneg yn seiliedig hefyd ar y canlynol:

- deall ac ymateb i iaith lafar ac ysgrifenedig
- nodi negeseuon a dod i gasgliadau
- defnyddio gwybodaeth am ramadeg
- cyfieithu o'r iaith sy'n cael ei hastudio
- cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol wrth siarad ac yn ysgrifenedig
- rhestr iaith ⁴bob dydd
- rhestr eirfa graidd sy'n seiliedig ar eirfa sy'n digwydd yn aml ac yn cael ei defnyddio'n aml⁵
- defnyddio ynganiad a goslef cywir
- defnyddio gwybodaeth am adnabyddiaeth ddiwylliannol a rhanbarthol.

Bydd pob uned yn seiliedig ar y themâu eang canlynol:

- **iaith ar gyfer hamdden a llesiant**
- **iaith ar gyfer teithio**
- **iaith ar gyfer astudio a gweithio.**

Gellir trosglwyddo'r eirfa yn y fanyleb hon ar draws y tair thema eang. Bydd hyn yn caniatáu i athrawon gyflwyno'r eirfa drwy eu testunau diddorol ac ysgogol eu hunain, gan ddefnyddio iaith mewn ffordd naturiol dro ar ôl tro. Er enghraifft, efallai y bydd athrawon yn dymuno cynnwys testunau ynghylch hunaniaeth a diwylliant, teulu, ffrindiau a pherthnasoedd, ac amser rhydd wrth ymdrin â'r thema iaith ar gyfer hamdden a llesiant; teithio, lleoedd yn y dref, amgylchedd a chynaliadwyedd wrth ymdrin â'r thema iaith ar gyfer teithio; cynlluniau ar gyfer y dyfodol, addysg uwch a'r byd gwaith wrth ymdrin â'r thema iaith ar gyfer gweithio ac astudio. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn benodol nac yn gynhwysfawr.

² [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Egwyddorion cynnydd – Hwb \(llyw.cymru\)](#)

³ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Cynllunio eich cwricwlwm – Hwb \(llyw.cymru\)](#)

⁴ Rôl a phwrpas y rhestr iaith bob dydd yw rhoi deunydd cyfeirio defnyddiol i athrawon a dysgwyr o'r hyn i'w ymdrin ag ef cyn TGAU.

⁵ Mae'r rhestr eirfa graidd yn cynnwys eitemau sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn Sbaeneg yn ogystal â bod yn ddeunydd defnyddiol ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed sy'n dysgu ieithoedd heddiw.

1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Sbaeneg naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y TGAU Sbaeneg i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 10 ac 11.

1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddarau terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchodedig penodol yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys er mwyn i'r asesiadau fod o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

2 CYNNWYS Y PWNC

Bydd angen i'r dysgwyr:

- ddysgu a defnyddio'r rhestr ramadeg a'r cyfatebiaethau sain-sillafu Sbaeneg yn Atodiad A
- dysgu a defnyddio'r rhestrau iaith bob dydd a geirfa graidd yn Atodiad B.

Dim ond yr elfennau gramadeg a amlinellir yn Atodiad A y bydd deunyddiau asesu yn eu defnyddio; oni nodir gramadeg derbyniadol yn unig yn y golofn dde, bydd gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth dderbyniadol a chynhyrchiol am y gramadeg o'r rhestr.

Dim ond geirfa o'r rhestr yn Atodiad B y bydd deunyddiau asesu ar gyfer pob uned yn ei defnyddio.

Rhoddir yr un credyd ond dim credyd ychwanegol i ddysgwyr sy'n defnyddio geirfa y tu allan i'r rhestr benodol mewn tasgau cynhyrchiol.

Deall ac ymateb

Dylai dysgwyr allu:

- deall ac ymateb i wahanol fathau o iaith lafar ac ysgrifenedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- nodi'r neges gyffredinol, y prif bwyntiau a'r safbwyntiau mewn darnau llafar ac ysgrifenedig, lle mae rhai ohonynt yn cynnwys iaith fwy cymhleth, a dod i gasgliadau lle bo hynny'n briodol
- defnyddio gwybodaeth am ramadeg i gefnogi dealltwriaeth, gan gynnwys adnabod y berthynas rhwng digwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- cyfieithu testunau byr a syml o'r Sbaeneg i'r Gymraeg/Saesneg.

Cyfathrebu a mynegi

Dylai dysgwyr allu:

- cyfathrebu a rhyngweithio'n glir ac yn effeithiol at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys cyfleu gwybodaeth, disgrifio, adrodd, esbonio a mynegi a chyfiawnhau barn
- cyfleu ystyr wrth siarad ac yn ysgrifenedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol
- defnyddio gwybodaeth am eirfa a gramadeg i gyfathrebu'n ystyrlon, gan ddefnyddio strwythurau mwy cymhleth sy'n cyfeirio at ddigwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol lle bo hynny'n briodol
- defnyddio ynganiad a goslef cywir ar y cyfan er mwyn cyfathrebu â siaradwr yr iaith.

Uned 1


Llafaredd

Asesiad di-arholiad: Cael ei gynnal yn y ganolfan a'i farcio gan CBAC
Prawf siarad: 7-10 munud
Amser paratoi: 10 munud
30% o'r cymhwyster
60 marc

Trosolwg o'r uned

- Pwrpas yr uned hon yw caniatáu i ddysgwyr:
- gyfathrebu'n ystyrlon drwy siarad, disgrifio, adrodd, mynegi a chyfiawnhau barn
 - dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Sbaeneg drwy eu hymatebion
 - dangos ynganiad a goslef cywir ar y cyfan
 - mynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau
 - cyfrannu at sgwrs.

Mae'r uned yn seiliedig ar y canlynol:



Meysydd cynnwys

Uned 1 Llafaredd

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddeall ac ymateb i Sbaeneg llafar.

Daw'r iaith lafar ddisgwyliedig o'r cynnwys penodedig (y gramadeg a'r cyfatebiaethau sain-sillafu yn **Atodiad A**, a'r eirfa yn **Atodiad B**).

Rhoddir yr un credyd am iaith a ddefnyddir sydd y tu hwnt i'r cynnwys diffiniedig ond sy'n cyflawni gofynion y dasg.

Cynnwys	Ymhelaethiad
Llafaredd Siarad a Gwranddo	Dylai dysgwyr allu: • datblygu eu sgiliau gwranddo i ddeall ac ymateb i wahanol fathau o iaith lafar mewn cyd-destunau amrywiol • defnyddio eu gwybodaeth am ramadeg a geirfa i gefnogi eu dealltwriaeth, gan gynnwys y berthynas rhwng amserau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol • cyfathrebu a rhyngweithio'n glir ac yn effeithiol at wahanol ddibenion • cyfleu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau mewn amrywiaeth o gyd-destunau • defnyddio eu gwybodaeth am eirfa a gramadeg i gyfathrebu'n ystyrlon • cyfeirio at ddigwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol lle bo hynny'n briodol • defnyddio strwythurau mwy cymhleth lle bo hynny'n briodol • defnyddio ynganiad a goslef cywir ar y cyfan. Dylai dysgwyr allu dangos eu dealltwriaeth o'r Sbaeneg drwy eu hymatebion mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau gan gynnwys y canlynol: • gorsaf drenau / gorsaf fysiau • swyddfa gwybodaeth i dwristiaid • sinema / theatr / lleoliad • maes gwersylla / hostel / gwesty • fferyllfa / meddygfa / ysbyty • canolfan hamdden • siopau • caffi / bwyty • yn y cartref • yn y dref. Dylai dysgwyr allu cymryd rhan mewn trafodaethau gan gynnwys: • gofyn ac ymateb i gwestiynau • gofyn am gyngor • gwneud cwyn • rhoi gwybod am broblem • esbonio, disgrifio a rhoi rhesymau • mynegi barn.

	Bydd yn ofynnol i ddysgwyr wneud y canlynol: • cymryd rhan mewn chwarae rôl • rhoi cyflwyniad, wedi'i baratoi ymlaen llaw, yn seiliedig ar eu diddordeb eu hunain a chymryd rhan mewn trafodaeth fer heb ei pharatoi am y cyflwyniad • cymryd rhan mewn sgwrs fer heb ei pharatoi.
--	---

Uned 2

Darllen ac Ysgrifennu


Asesiad di-arholiad (1 awr): Cael ei gynnal yn y ganolfan a'i farcio gan CBAC
15% o'r cymhwyster
45 marc

Trosolwg o'r uned

Pwrpas yr uned hon yw caniatáu i ddysgwyr:

- ddeall ac ymateb i Sbaeneg ysgrifenedig
- cyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig
- mynegi a chyfiawnhau safbwyntiau.

Bydd yr uned yn seiliedig ar y canlynol:



Meysydd cynnwys

Uned 2 Darllen ac Ysgrifennu

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth, y sgiliau, a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ymateb i Sbaeneg ysgrifenedig.

Bydd dysgwyr yn astudio gwaith yn Sbaeneg yn un o'r genres canlynol: nofel graffig, stori fer, sgript ffilm, nofel.

Bydd gan ganolfannau ryddid i ddewis eu gweithiau eu hunain a gall dysgwyr gwahanol ddewis astudio gweithiau gwahanol. Waeth beth fo'r gwaith a ddewiswyd, pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr fynd i'r afael â gwaith Sbaeneg ac ysgrifennu amdano yn Sbaeneg. Mae'n debygol y bydd rhai gweithiau yn cynnwys geiriau sydd y tu allan i'r rhestrau geirfa; yn yr achos hwn bydd angen i athrawon sicrhau bod dysgwyr yn deall y neges gyffredinol, nid oes disgwyl i ddysgwyr ddeall pob gair, y pwrpas yw gallu ysgrifennu am y gwaith y maent wedi'i astudio.

Bydd CBAC yn darparu gweithiau enghreifftiol ar gyfer pob genre yn Sbaeneg.

O ran cynhyrchu ymatebion ysgrifenedig yn Sbaeneg, daw'r iaith ddisgwyliedig o'r cynnwys penodedig (y gramadeg a'r cyfatebiaethau sain-sillafu yn Atodiad A, a'r eirfa yn Atodiad B).

Rhoddir yr un credyd am iaith a ddefnyddir sydd y tu hwnt i'r cynnwys diffiniedig ond sy'n cyflawni gofynion y dasg.

Cynnwys	Ymhelaethiad
Darllen ac Ysgrifennu	Dylai dysgwyr allu: - deall ac ymateb i iaith ysgrifenedig - defnyddio eu gwybodaeth am ramadeg a geirfa i gefnogi eu dealltwriaeth o'r gwaith - defnyddio amrywiaeth o batrymau iaith a gwahanol amserau'r ferf yn effeithiol - defnyddio strwythurau cymhleth lle bo hynny'n briodol - dewis geirfa a gramadeg perthnasol i fynegi ystyr - mynegi eu hunain mewn Sbaeneg ysgrifenedig i ddangos eu dealltwriaeth, eu syniadau a'u barn. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr wneud y canlynol: - astudio gwaith yn Sbaeneg - dangos eu dealltwriaeth o'r gwaith drwy ymateb yn Sbaeneg i dasg a osodir yn Gymraeg/Saesneg.

Uned 3


Gwranddo

Arholiad ysgrifenedig: 45 munud (gan gynnwys 5 munud o amser darllen)
Cael ei osod a'i farcio gan CBAC
20% o'r cymhwyster
45 marc

Trosolwg o'r uned

- Pwrpas yr uned hon yw:
- galluogi dysgwyr i ddeall Sbaeneg drwy wrando ac ymateb i Sbaeneg llafar
 - nodi negeseuon a dod i gasgliadau drwy wrando ar ddarnau gan gynnwys y fformatau canlynol: hysbysebion, negeseuon, podlediadau, cyhoeddiadau, sgysiau a chyfweliadau
 - dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a strwythurau Sbaeneg
 - dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Sbaeneg llafar.

Bydd yr uned yn seiliedig ar y canlynol:



Meysydd cynnwys

Uned 3 Gwranddo

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddeall Sbaeneg llafar.

Daw'r iaith a ddefnyddir o'r cynnwys penodedig (y gramadeg a'r cyfatebiaethau sain-sillafu yn **Atodiad A**, a'r eirfa yn **Atodiad B**).

Cynnwys	Ymhelaethiad
Gwranddo	Dylai dysgwyr allu: • datblygu eu sgiliau gwranddo i ddeall a gwerthuso'r hyn y maent yn ei glywed • dangos dealltwriaeth o iaith lafar wrth wrando ar un neu fwy o siaradwyr mewn amrywiaeth o gyd-destunau • nodi'r neges gyffredinol, y prif bwyntiau a'r safbwyntiau mewn darnau llafar, lle mae rhai ohonynt yn cynnwys iaith fwy cymhleth, a dod i gasgliadau lle bo hynny'n briodol • defnyddio gwybodaeth am ramadeg i gefnogi dealltwriaeth, gan gynnwys adnabod y berthynas rhwng digwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr wneud y canlynol: • gwranddo ar ddarnau gan gynnwys y fformatau canlynol: hysbysebion, negeseuon, podlediadau, cyhoeddiadau, sgysiau a chyfweliadau • ymateb i amrywiaeth o gwestiynau yn Gymraeg/Saesneg.

Uned 4


Darllen ac Ysgrifennu

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
Cael ei osod a'i farcio gan CBAC
35% o'r cymhwyster
70 marc

Trosolwg o'r uned

- Pwrpas yr uned hon yw:
- galluogi dysgwyr i ddangos dealltwriaeth ac ymateb i Sbaeneg ysgrifenedig
 - nodi negeseuon a dod i gasgliadau
 - cyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig
 - dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a strwythurau Sbaeneg
 - mynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion gwahanol
 - cyfieithu o'r Sbaeneg i'r Gymraeg/Saesneg.

Bydd yr uned yn seiliedig ar y canlynol:



Meysydd cynnwys

Uned 4 Darllen ac Ysgrifennu

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i deall ac ymateb i Sbaeneg ysgrifenedig.

Dylai'r iaith ysgrifenedig ddod o'r cynnwys penodedig (y gramadeg a'r cyfatebiaethau sain-sillafu yn **Atodiad A**, a'r eirfa yn **Atodiad B**).

Rhoddir yr un credyd am iaith ysgrifenedig a ddefnyddir sydd y tu hwnt i'r cynnwys diffiniedig ond sy'n cyflawni gofynion y dasg.

Cynnwys	Ymhelaethiad
Darllen ac Ysgrifennu	Dylai dysgwyr allu: - deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau - deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith a ysgrifennwyd ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion gwahanol - nodi'r neges gyffredinol, y prif bwyntiau a'r safbwyntiau mewn darnau llafar ac ysgrifenedig, lle mae rhai ohonynt yn cynnwys iaith fwy cymhleth, a dod i gasgliadau lle bo hynny'n briodol - defnyddio gwybodaeth am ramadeg i gefnogi dealltwriaeth, gan gynnwys adnabod y berthynas rhwng digwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol - cyfieithu testunau byr a syml o'r Sbaeneg i'r Gymraeg/Saesneg - cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol yn ysgrifenedig at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys cyfleu gwybodaeth, disgrifio, adrodd, mynegi a chyfiawnhau barn - cyfleu ystyr yn ysgrifenedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol - defnyddio gwybodaeth am eirfa a gramadeg i gyfathrebu'n ystyrlon, gan ddefnyddio strwythurau mwy cymhleth sy'n cyfeirio at ddigwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol lle bo hynny'n briodol. Bydd gofyn i ddysgwyr ddarllen amrywiaeth o destunau sy'n gysylltiedig â phob un o'r themâu eang gan gynnwys: - testunau sy'n seiliedig ar iaith drafodaethol ymarferol fel hysbysiadau gwybodaeth ac arwyddion - testunau ffeithiol fel e-bost, poster, tudalen we, llythyr, erthygl papur newydd, taflen, graff, hysbyseb - rhyddiaith fel testunau llenyddol parhaus, darnau o straeon byrion, erthyglau cylchgronau. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr wneud y canlynol: - dangos dealltwriaeth o'r testunau drwy ymateb i amrywiaeth o gwestiynau yn Gymraeg/Saesneg - cyfieithu brawddegau i'r Gymraeg/Saesneg o fewn cyd-destun - ysgrifennu yn Sbaeneg mewn ymateb i ysgogiad.

Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae TGAU Sbaeneg yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- dysgu am y diwylliant a'r gymdeithas yn y gwledydd a'r cymunedau lle mae'r iaith ryngwladol yn cael ei siarad
- archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol â siaradwyr yr iaith
- ymgysylltu â'r iaith o amrywiaeth o ffynonellau ac mewn amrywiaeth o genres a chyfryngau
- dangos strategaethau iaith a sgiliau dysgu iaith, gan gynnwys defnyddio geiriaduron
- trawsieithu
- defnyddio technoleg ddigidol
- gwneud cysylltiadau priodol â rhannau eraill o'r cwricwlwm i ddatblygu a dyfnhau sgiliau dwyieithog ac amlieithog dysgwyr.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Deall ac ymateb i iaith lafar drwy gyfathrebu a mynegiant wrth siarad ac ysgrifennu

AA2

Deall ac ymateb i iaith ysgrifenedig drwy gyfathrebu a mynegiant wrth siarad ac ysgrifennu.

AA3

Dangos gwybodaeth am ramadeg, geirfa a chyfatebiaeth sain-sillafu.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	18%	4%	8%	30%
Uned 2	-	10%	5%	15%
Uned 3	20%	-	-	20%
Uned 4	-	27.5%	7.5%	35%
Pwysoliad cyffredinol	38%	41.5%	20.5%	100%

3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Mae'r asesiad di-arholiad yn cyfrif am 45% o'r cymhwyster TGAU hwn. Canllawiau cyffredinol yw'r canlynol ar gyfer cynnal asesiad Uned 1 ac Uned 2. Rhaid cynnal asesiadau o dan amodau dan reolaeth fel y nodir isod, ac yn unol â gofynion rheoleiddio. Rhaid gwneud yr Asesiad Di-arholiad ym mlwyddyn olaf y cwrs.

Uned 1 – Llafaredd

Rhwng 7 a 10 munud fydd hyd yr asesiad

Amser paratoi: 10 munud

30% o'r cymhwyster

60 marc

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron mewn unrhyw ran o'r asesiad, nac unrhyw ddeunyddiau cyfeirio eraill, ac eithrio nodiadau'r dysgwr eu hunain.

CBAC fydd yn gosod y tasgau. Caiff yr asesiadau eu cynnal gan athrawon yn y ganolfan, gan wneud recordiadau sain i'w marcio gan arholwyr allanol.

Bydd yr asesiad yn cynnwys tair tasg: darllen yn uchel a chwarae rôl, cyflwyniad a thrafodaeth, a sgwrs.

Bydd llyfryn i athrawon a fydd yn rhoi cyfarwyddiadau ac arweiniad ynghylch sut i gynnal yr asesiad, a bydd CBAC yn rhoi manylion am y cardiau chwarae rôl a darllen yn uchel sydd i'w dyrannu i bob dysgwr yn y Pecyn Asesu. Mae gofyn i ganolfannau sicrhau bod pob ymgeisydd yn defnyddio'r cerdyn penodedig cywir.

Cynhelir yr asesiadau siarad yn ystod cyfnod o bum wythnos rhwng Ebrill a Mai a bennir yn flynyddol gan CBAC. Gall canolfannau agor y pecynnau hyd at dri diwrnod gwaith cyn yr asesiad cyntaf sydd wedi'i amserlennu. Gall y cyfnod paratoi ar gyfer y cyflwyniad ddechrau bythefnos cyn yr asesiad cyntaf sydd wedi'i amserlennu.

Uned 2 – Darllen ac Ysgrifennu

Mae'r asesiad yn para 1 awr

15% o'r cymhwyster

45 marc

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron mewn unrhyw ran o'r asesiad, nac unrhyw ddeunyddiau cyfeirio eraill.

Bydd y dasg yn cael ei rhyddhau i ganolfannau bob blwyddyn ym mis Mawrth cyn cyfres yr haf lle mae'n rhaid cyflwyno'r Asesiad Di-arholiad. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio gan arholwyr allanol.

Cynhelir yr asesiad yn ystod cyfnod o wyth wythnos rhwng Mawrth a Mai a bennir yn flynyddol gan CBAC. Gall canolfannau lawrlwytho'r dasg hyd at dri diwrnod gwaith cyn yr asesiad cyntaf.

Bydd y Pecyn Asesu yn cael ei ddiweddarau a'i ryddhau'n flynyddol. Bydd yn cynnwys tabl dyrannu cardiau chwarae rôl wedi'i ddiweddarau ynghyd â'r cyfnod penodol y mae'n rhaid cynnal yr asesiadau siarad ac Uned 2.

4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Sbaeneg.

Mae ein [Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn](#) yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC [Amau Camymddwyn: Polisiau a Gweithdrefnau](#).

5 GWYBODAETH DECHNEGOL

5.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2027.

Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob uned arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll uned Asesiad Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo'r marc Asesiad Di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'r marc hwn yn is na'r cynnig blaenorol (onid yw'r marc hwn yn absennol).

Nodir y cod cofrestru isod.

	Cod cofrestru	
	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
CBAC TGAU Sbaeneg	3840QS	3840CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Atodiad A

Gramadeg a chyfatebiaethau sain-sillafu Sbaeneg

Bydd disgwyl i ddysgwyr TGAU ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ramadeg a strwythurau Sbaeneg. Dim ond yr elfennau gramadeg a amlinellir yn Atodiad A y bydd deunyddiau asesu yn eu defnyddio; oni nodir gramadeg derbyniadol yn unig yn y golofn dde, bydd gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth dderbyniadol a chynhyrchiol am y gramadeg o'r rhestr.

Gwybodaeth dderbyniadol (d)

(d)

Rhan Ymadrodd	Gwybodaeth ofynnol	(d)
Y fannod	pendant: el, la, los, las (y, yr, 'r – e.e y llyfr) amhendant: un, una, unos, unas (<i>a/an</i> yn Saesneg – e.e llyfr) lo gydag ansoddair i ddilyn	
Ansoddeiriau	cytundeb: gwrywaidd a benywaidd, unigol a lluosog ffurfiau bachigol: -ito/-ita safle – gan gynnwys y rhai sy'n newid eu hystyr yn ôl eu safle – o flaen neu ar ôl yr enw: grande (mawr), medio (hanner, canol / cyfartalog), mismo (yr un / iawn, -hun(an/ain)) dangosol: este/a/os/as (hwn/hon/hyn), ese/a/os/as (hwnnw/honno/hynny – yn agos), aquel, aquella/os/as (hwnnw/honno/hynny – pellach i ffwrdd) amhendant: cada (pob (un), yr un), otro/a/os/as (arall / eraill), todo/a/os/as (i gyd, pob), mismo/a/os/as (yr un), algún, alguna/os/as (rhai), ningún, ninguna/os/as (dim, dim un), varios/as (nifer) meddiannol, ffurf byr: mi/s (fy), tu/s (dy), su/s (ei, eich), nuestro/a/os/as (ein), vuestro/a/os/as (eich), su/s (eu, eich)	
	gradd gymharol: más ... que (mwy... na/nag), menos... que (llai ... na/nag), tan ... como (mor...â/ag) gradd eithaf: el, la, los, las más/menos + ansoddair (y mwyaf.../lleiaf) gradd eithaf absoliwt: -ísimo/a/os/as graddau cymharol ac eithaf afreolaidd: mejor (gwell), peor (gwaeth), mayor (hŷn), menor (iau)	
	perthynol: cuyo/a/os/as (y mae)	(d)

Adferfau	ffurfiant (-mente) adferfau afreolaidd: bien (da), mal (gwael) graddau cymharol ac eithaf: más que (mwy na/nag), menos que (llai na/nag), tanto como (cymaint â/ag) adferfau amser: ahora (nawr), ya (eisoes), ayer (ddoe), hoy (heddiw), mañana (yfory), todavía (o hyd), temprano (cynnar), tarde (hwyr), anoche (neithiwr), siempre (bob amser), a menudo (yn aml), la veces (weithiau), nunca (byth) adferfau lle: aquí (yma), allí (fan draw / yna, yno), cerca (yn agos), lejos (pell), adentro (y tu mewn), afuera (y tu allan), arriba (uwchben, i fyny'r grisiau / lan staer), abajo (islaw, i lawr y grisiau / lawr llawr)	
Cysyllteiriau	cysyllteiriau cydradd: y (a/ac), pero (ond), o (neu), que (sydd) cysyllteiriau isradd: como (fel, megis), cuando (pryd / pan), porque (oherwydd), si (os), pues (felly, yna)	
	aunque (er, serch), ya que (oherwydd, gan), mientras (tra), por lo tanto (felly), sin embargo (fodd bynnag)	(d)
Y Negydd	no (o flaen berf i'w negyddu) nada (dim byd) nadie (neb) ningún/ninguno/a/os/as (dim, dim un) nunca (byth) tampoco (chwaith, na ... chwaith)	
	(no) ni... ni (ni(d)/na(d) ... na/nac) ni siquiera (dim hyd yn oed) ya no (bellach, erbyn hyn, mwyach)	(d)
Enwau	cenedl ffurfiau unigol a lluosog ffurfiau bachigol: -ito, -ita	

Arddodiaid	a (i, yn), de (o), en (yn, ar), con (gyda), sin (heb) defnyddio'r ffurf gywasgedig gyda'r fannod bendant: al (i'r, yn y), del (o'r) arddodiaid lle: al lado de (ger / wrth ochr / wrth ymyl), detrás de (y tu ôl i), delante de (o flaen), entre (rhwng), debajo de (o dan), enfrente de (gyferbyn â), dentro de (y tu mewn i), hacia (tuag at), contra (yn erbyn), sobre (ar ben) arddodiaid amser: desde (ers), hace (yn ôl), hasta (tan), durante (yn ystod), a partir de (o) personol: a por a para (am, ar, trwy, oherwydd, yn gyfnewid am, er mwyn) ffurfiau cyfansawdd: antes de (cyn), después de (ar ôl), en vez de (yn lle)	
	defnyddio desde hace gyda'r amser presennol (pa mor hir rydych chi wedi bod yn gwneud rhywbeth neu am ba mor hir mae rhywbeth wedi bod yn digwydd)	(d)
Rhagenwau	goddrych: yo (fi), tú (ti – unigol anffurfiol), él (ef), ella (hi), usted (chi – unigol ffurfiol), nosotros (ni), vosotros (chi – lluosog anffurfiol), ellos (nhw – grŵp o ddynion neu grŵp cymysg), ellas (nhw – grŵp o fenywod), ustedes (chi – lluosog ffurfiol) berfau amhersonol gyda'r rhagenw se (rhywun) atblygol: fi (fy hun), te (ti dy hun – unigol anffurfiol), se (ei hun, eich hun – unigol ffurfiol), nos (ni'n hunain), os (eich hunain – lluosog anffurfiol), se (eu hunain, eich hunain – lluosog ffurfiol) perthynol: que (sydd, a, y, yr) anghysylltiol: conmigo (gyda fi), contigo (gyda ti), para mí (i mi), para tí (i ti) amhendant: algo (rhywbeth), alguien (rhywun), algún, alguna/os/as (rhai), ningún, ninguna/os/as (dim, dim un) mediannol: el mío, la mía, los míos, las mías (fy un i / fy rhai i), el tuyo, la tuya, los tuyos, las tuyas (dy un di / dy rai di), el suyo, la suya, los suyos, las suyas (ei un ef / ei rai ef / ei hun hi / ei rhai hi), el nuestro, la nuestra, los nuestros, las nuestras (ein hun ni / ein rhai ni), el vuestro, la vuestra, los vuestros, las vuestras (eich un chi / eich rhai chi), el suyo, la suya, los suyos, las suyas (eu hun nhw / eu rhai nhw, eich un chi / eich rhai chi)	
	perthynol: quien, quienes (sydd), el que/cual, la que/cual, los que/cuales, las que/cuales ((yr un) sydd)	(d)

	dangosol: este/a/os/as (hwn/hon/hyn), ese/a/os/as (hwnnw/honno/hynny – yn agos), aquel, aquella/os/as (hwnnw/honno/hynny – pellach i ffwrdd)	(d)
	anghysylltiol: mí (fi), tí (ti – unigol anffurfiol), él (ef), ella (hi) usted (chi – unigol ffurfiol), nosotros/as (ni), vosotros/as (chi – lluosog anffurfiol), ellos (nhw – grŵp o ddynion neu grŵp cymysg), ellas (nhw – grŵp o fenywod), ustedes (chi – lluosog ffurfiol)	(d)
	gwrthrych uniongyrchol: me (fi), te (ti – unigol anffurfiol), lo (ef, chi – unigol ffurfiol), la (hi, chi – unigol ffurfiol), nos (ni), os (chi – lluosog anffurfiol), los, las (nhw, chi – lluosog anffurfiol), los, las (nhw, chi – lluosog ffurfiol) gwrthrych anuniongyrchol: me ((i) fi), te ((i) ti – unigol anffurfiol), le ((iddo) ef, (iddi) hi, (i) chi – ffurfiol), nos ((i) ni), os ((i) chi – lluosog anffurfiol), les ((iddyn) nhw, (i) chi – lluosog ffurfiol) safle a threfn rhagenwau gwrthrychol	(d)
Meintiolwyr/ Cryfhawyr	muy (iawn), bastante (digon), demasiado (rhy / gormod), un poco (ychydig), mucho (llawer)	
Berfau ac amserau	pob person y ferf, unigol a lluosog berfau atblygol dulliau cyfarch: tú ac usted berfenw a ddefnyddir fel enw berfau amhersonol: hay (mae (yno / yna)), hay que (mae'n rhaid) berfau cysefin newidiol ymadroddion aml-ferf (acabar de + berfenw, seguir + gerwnd, llevar + cyfnod amser, desde hace + amser) defnyddio ser ac estar Amserau: • presennol – mynegol a pharhaol • gorffennol • amherffaith: mewn ymadroddion gydag era/n (roedd (yna)) a gyda'r tywydd estar (bod), hacer (gwneud) • perffaith • y dyfodol agos a'r dyfodol • amodol	
	Amserau: • amherffaith • gorberffaith • y goddefol (se puede, se necesita, se habla) • perffaith • gerwnd • gorchmynnol: gan gynnwys ffurfiau negyddol • dibynnol presennol: dyfodol ar ôl cysyllteiriau sy'n dynodi amser gyda cuando (pan), ar ôl berfau sy'n mynegi dymuniad, gorchymyn, cais, emosiwn a phwrpas gyda para que (er mwyn)	(d)

Cyfatebiaeth sain-sillafu Sbaeneg

Bydd disgwyl i ddysgwyr wybod yr wyddor Sbaeneg a bydd angen iddynt wybod y cyfatebiaethau sain-sillafu a restrir isod. Mae'r rhestr yn nodi'r gwahaniaethau allweddol o ran cyfatebiaethau sain-sillafu rhwng y Sbaeneg a'r Gymraeg/Saesneg y bydd angen i ddysgwyr eu dysgu ar lefel TGAU er mwyn gallu darllen yn uchel gyda chywirdeb digonol ar y lefel hon. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r holl gyfatebiaethau sain-sillafu yn y Sbaeneg.

Cyfatebiaeth sain-sillafu	Enghraifft o'r rhestr eirfa
[a]	alto
[o]	dos
[e]	España
[i]	idea
[u]	uniforme
[ll]	llamar
[ch]	leche
[ca]	casa
[co]	coche
[cu]	escuchar
[cu] + llafariad	cuerpo
[ce]	cerca
[ci]	cierto
[z]	zona
[que]	porque
[qui]	tranquilo
[ga]	ganar
[e]	largo
[gu]	preguntar
[ge]	gente
[gi]	imaginar
[gue]	guerra
[gui]	guitarra
[j]	ojo
[ñ]	mañana
[v]	verde
[-r-] [-r]	pero, nadar
[rr] [r-] [-r-]*	cerrar, rico, sonrisa
'h' dawel	hospital

Cydnabyddir y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gyfarwydd â'r symbolau seiniau Sbaeneg Ewrop uchod, fodd bynnag, os bydd dysgwr yn defnyddio ynganiad o ffurf safonol arall o Sbaeneg, bydd yn cael ei dderbyn.

Gan fod iaith yn newid yn barhaus, gallai'r Real Academia Española dderbyn y defnydd newydd o iaith fwy niwtral a chynhwysol o ran cenedl a rhywedd. Ni fydd CBAC yn gwneud newidiadau i'r fanyleb hon ond bydd yn derbyn unrhyw newidiadau a ddaw yn y dyfodol. Fel man cychwyn, ddylai adnabod rhywedd ddim bod yn broblem gan y dylai dysgwyr fod yn defnyddio rhagenwau person cyntaf neu'n defnyddio enwau gwrywaidd/benywaidd. Os yw dysgwyr yn dewis siarad yn y trydydd person, rhaid iddyn nhw fod yn gyson o ran dewis rhagenwau, er enghraifft, ddylai 'nhw' ddim cael ei weld yn anghywir yn ramadegol os yw'r ymgeisydd yn defnyddio'r rhagenw o'i ddewis yn gyson drwy gydol y gwaith siarad. Dylech gadw dewisiadau'r ymgeiswyr mewn cof wrth asesu'r gwaith i gyd. Wrth drafod unigolyn arall yn y trydydd person lle nad yw rhywedd neu ddewis rhywedd yn hysbys neu nad yw wedi'i ddatgelu, mae CBAC yn disgwyl i'r dysgwr gymhwyso ei ddewis o gytundeb rhywedd yn gyson.

Atodiad B: Rhestr eirfa Sbaeneg

Iaith Bob Dydd

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio a deall yr iaith bob dydd a restrir isod. Gallai rhai o'r rhain fod wedi'u cynnwys mewn dysgu blaenorol. Efallai y bydd y rhestr hon yn ddefnyddiol i athrawon wrth gynllunio drwy gydol y continwwm dysgu iaith.

Talfyriadau/Acronymau

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
AVE, el	Trên cyflymder uchel
c/ (calle)	Stryd
Dr. (doctor)	Doctor
Dra. (doctora)	Doctor
EE. UU. (Estados Unidos)	Unol Daleithiau America
LGBTIQ+ (lesbiana, gay, bisexual, transgénero/transexual, intersexual, queer, +)	LHDTCRh+ (pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol/traws, cwiar, rhyngryw +)
Renfe / RENFE	Rheilffyrdd Sbaen
Sr. (Señor)	Mr
Sra. (Señora)	Mrs
Srta. (Señorita)	Miss
1º / primero (2º, 3º, ac ati)	1 ^{af} (2il, 3ydd ac ati)
1ª / primera (2ª, 3ª, ac ati)	1 ^{af} (2il, 3ydd ac ati)

Ymadroddion Amser

Bydd disgwyl i ddysgwyr wybod dyddiau'r wythnos, y tymhorau a misoedd y flwyddyn. Yn ogystal, bydd disgwyl i ddysgwyr wybod y geiriau a'r ymadroddion canlynol.

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
a diario	dyddiol, bob dydd
algunas veces	weithiau
año, el	blwyddyn
cada (día / mes, ac ati)	bob (dydd / mis ac ati)
cada (...) días / horas	bob (...) diwrnod / awr
de vez en cuando	nawr ac yn y man, o bryd i'w gilydd

despacio	yn araf
día, el	dydd / diwrnod
en el futuro	yn y dyfodol
entonces	yna / felly
esta noche	heno
estación, la	tymor
fecha, la	dyddiad
fin de semana, el	penwythnos
los lunes, ac ati	ddydd Llun, ac ati
luego	yna, yn ddiweddarach
mañana, la	bore
mes, el	mis
noche, la	nos
otra vez	eto
pasado, el	diwethaf
pasado (ansoddair)	diwethaf
por lo general	yn gyffredinol
pronto	yn fuan, cyn bo hir
próximo	nesaf
que viene (el mes, ac ati)	sydd ar ddod / (mis ac ati) nesaf
semana, la	wythnos
sobre	ar, tua
solo (sólo)	yn unig
tarde, la	prynhawn
tiempo, el	amser
vez, una	unwaith
veces, dos / tres, ac ati.	dwywaith, teirgwaith ac ati

Gofyn Cwestiynau

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
contestar	ateb
¿cómo?	sut? pam?
¿cuál?	pa un / pa rai?
¿cuándo?	pryd?
¿cuánto?	faint?
¿cuántos?	sawl?
¿de dónde?	o ble?
¿dónde?	ble?
¿de quién?	gan bwy? / pwy biau?
preguntar	gofyn cwestiwn
pregunta, una	cwestiwn
¿por dónde?	ble?
¿por qué?	pam?
¿qué?	beth? / pa un/pa rai? / am?
responder	ateb

Safbwyntiau

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
aburrido	diflas
aburrirse	diflasu
alegre	llawen, hapus
a mi modo de ver	yn fy marn i
barato	rhad
bonito	prydferth, hyfryd
bueno	da
caro	drud
delicioso	blasus, hyfryd
detesto	rydw i'n casáu
difícil	anodd

diferente / distinto	gwahanol
divertido	doniol, difyr
emocionante	cynhyrfus
me encanta	rydw i'n caru / rydw i'n dwlu ar / rydw i wrth fy modd gyda
en mi opinión	yn fy marn i
estoy de acuerdo	rydw i'n cytuno
estupendo	gwyach
estúpido	twp, gwirion, ffôl
excelente	rhagorol
fácil	hawdd
fantástico	gwyach
fascinante	rhyfeddol
fatal	ofnadwy
fenomenal	gwyach
feo	hyll
genial	gwyach
gracioso	doniol
me gusta	rydw i'n hoffi
hermoso	hardd
horrible	ofnadwy
importante	pwysig
interesante	diddorol
inútil	diwerth
llevarse bien/mal	dod ymlaen yn dda / wael
odiar	casáu
pasarlo bien/mal	mwynhau / ddim yn mwynhau
preferido	hoff
precioso	hardd, prydferth, hyfryd
sabroso	blasus
tranquilo	distaw, llonydd
útil	defnyddiol

Lliwiau

Bydd disgwyl i ddysgwyr wybod y lliwiau a restrir isod, a hefyd wrth eu cyfuno ag oscuro-(tywyll) a claro-(golau).

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
amarillo	melyn
azul	glas
blanco	gwyn
castaño	(gwallt) brown
color, el	lliw
oro / dorado	aur
gris	llwyd
marrón	brown
morado	porffor
moreno	gwallt tywyll, (croen) â lliw haul
naranja	oren
negro	du
pálido	golau
rosa / rosado	pinc
rojo	coch
rubio	gwallt golau
verde	gwyrdd
violeta	fioled

Cyfarchion ac Ebychiadau

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
¡adiós!	hwyl fawr!
¡bienvenido!	croeso!
¡buena suerte!	pob lwc!
¡claro!	wrth gwrs!
¿cómo estás?	sut wyt ti?
de nada	croeso

disculpas	ymddiheuriadau / esgusodwch fi
encantado	braf cwrdd â chi / ti
¡felicidades!	cofion gorau! llongyfarchiadau!
¡felicitaciones!	llongyfarchiadau!
hasta (el lunes, ac ati)	tan (ddydd Llun ac ati)
hasta luego	wela i chi / ti wedyn
hasta mañana	wela i chi / ti fory / tan fory
hasta pronto	wela i chi / ti cyn bo hir
lo siento	mae'n ddrwg gen i
mucho gusto	braf cwrdd â chi / ti
perdón / perdona / perdone	ymddiheuriadau
por favor	os gwelwch yn dda
¡qué (+ ansoddair)!	mor / am....!
¡qué (+ enw)!	am / dyna ...!
¡que lo pase(s) bien!	mwynhewch / mwynha!
¿qué tal?	sut wyt ti?
¡salud!	iechyd da! bendith!
vale	iawn
¡vamos!	bant â ni! dere 'mlaen!

Lleoliad a Phellter

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
ahí	fan yna
al final (de)	ym mhen draw
allá	fan draw
alrededor (de)	o amgylch
derecha, a la	ar y dde, i'r dde
distancia, la	pellter
en las afueras	ar y cyrion, ar gyrion
este, el	y dwyrain
fuera (de)	y tu allan (i)

izquierda, a la	ar y chwith, i'r chwith
kilómetro, el	cilometr
oeste, el	y gorllewin
norte, el	y gogledd
sur, el	y de

Defnyddiau

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
algodón, el	cotwm
cartón, el	cardbord
lana, la	gwlân
madera, la	pren
material, el	deunydd
papel, el	papur
plástico, el	plastig
vidrio, el	gwydr

Tywydd

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
buen / mal tiempo	tywydd da / tywydd gwael
caliente	poeth
fresco	ffres
haber (nieve, niebla ac ati)	mae eira, niwl ac ati
hacer (frío, calor, sol ac ati)	mae'n (oer, poeth, heulog ac ati)
hielo, el	iâ / rhew
lluvia, la	glaw
niebla, la	niwl
nieve, la	eira
nube, la	cwmwl
nublado / nubloso	cymylog
sol, el	haul
tener (calor, frío)	teimlo'n (boeth, oer)

tiempo, el	y tywydd
tormenta, la	storm
tormentoso	stormus
viento, el	gwynt

Dweud yr amser

Dylai dysgwyr wybod y cloc 12 awr a 24 awr.

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
de la madrugada	yn oriau mân y bore
de la mañana	yn y bore
de la tarde	yn y prynhawn
de la noche	yn y nos
es la una	mae'n un o'r gloch
hora, la	awr
medianoche, la	canol nos
mediodía, el	hanner dydd
menos cuarto	chwarter i (yr awr)
minuto, el	munud
¿qué hora es?	faint o'r gloch yw hi?
son las...	mae'n.... o'r gloch
y media	hanner awr wedi (yr awr)

Gwledydd / Cyfandiroedd / Cenedligrwydd

Mae disgwyl i ddysgwyr wybod enwau'r holl wledydd Sbaeneg eu hiaith a'r cenhedloedd cyfatebol.

Sbaeneg - gwlad / cyfandir	Cenedligrwydd	Cymraeg cyfatebol
continente, el	-	cyfandir
África	africano/a	Affrica / Affricanwr, Affricanes, person o Affrica
Asia	asiático/a	Asia / person o Asia
Europa	europeo/a	Ewrop / Ewropead, person o Ewrop

Norteamérica	norteamericano/a	Gogledd America / person o Ogledd America
Sudamérica	de sudamérica	De America / person o Dde America
país, el	-	gwlad
Alemania	alemán/ana	Yr Almaen / Almaenwr, Almaenes, person o'r Almaen
Argentina	argentino/a	Yr Ariannin / Archentwr, Archentwraig, person o'r Ariannin
Australia	australiano/a	Awstralia / Awstraliad, person o Awstralia
Bolivia	boliviano/a	Bolivia / person o Bolivia
Canadá	canadiense	Canada / Canadiad, person o Ganada
Chile	chileno/a	Chile / person o Chile
China	chino/a	China / person o China
Colombia	colombiano/a	Colombia / person o Colombia
Costa Rica	costarricense	Costa Rica / person o Costa Rica
Cuba	cubano/a	Cuba / person o Cuba
Ecuador	ecuatoriano/a	Ecuador / person o Ecuador
Egipto	egipcio/a	Yr Aifft / Eifftiwr, Eiffes, person o'r Aifft
Escocia	escocés/esa	Yr Alban / Albanwr, Albanes, person o'r Alban
España	español/a	Sbaen / Sbaenwr, Sbaenes, person o Sbaen
Estados Unidos	estadounidense	Unol Daleithiau America / Americanwr, Americanes, person o America / o Unol Daleithiau America
Francia	francés/a	Ffrainc / Ffrancwr, Ffrances, person o Ffrainc
Gales	galés/esa	Cymru / Cymro, Cymraes, person o Gymru
Gran Bretaña	británico/a	Prydain / Prydeiniwr, person o Brydain

Grecia	griego/a	Groeg / Groegwr, Groeges, person o Groeg
Guatemala	guatemalteco/a	Guatemala / person o Guatemala
Inglaterra	inglés/esa	Lloegr / Sais, Saesnes, person o Loegr
Italia	italiano/a	Yr Eidal / Eidalwr, Eidales, person o'r Eidal
Irlanda	irlandés/esa	Iwerddon / Gwyddel, Gwyddeles, person o Iwerddon
Japón	japonés/esa	Japan / Japanead, person o Japan
México	mexicano/a	México / person o México
Perú	peruano/a	Periw / Periwriad, person o Beriw
Portugal	portugués/esa	Portiwgal / Portiwgead, person o Bortiwgal
Puerto Rico	puertorriqueño/a	Puerto Rico / person o Puerto Rico
Rusia	ruso/a	Rwsia / Rwsiad, person o Rwsia
Turquía	turco/a	Twrci / person o Dwrci
Uruguay	uruguayo/a	Uruguay / person o Uruguay
Venezuela	venezolano/a	Venezuela / person o Venezuela
nacionalidad	-	cenedligrwydd

Ardaloedd Daearyddol

Sbaeneg	Cymraeg cyfatebol
barrio, el	cymdogaeth, ardal
bosque, el	coedwig
calle, la	stryd
campo, el	cefn gwlad, maes, cae
capital, la	prifddinas
centro, el	canol
ciudad, la	dinas, tref

costa, la	arfordir
isla, la	ynys
